

Gwasanaethau Plant Sir Fynwy

Strategaeth Gyfranogiad ar gyfer Plant a Phobl Ifanc

Mae ymwneud â phenderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau yn un o hawliau sylfaenol pob plentyn a pherson ifanc. Mae Erthygl 12 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn datgan bod gan bob plentyn hawl i fynegi eu barn ar faterion sy'n effeithio arnyn nhw a bod pwys dyledus yn cael ei roi ar eu barn, yn unol â'u hoed, eu dealltwriaeth a'u haeddfedrwydd.

Mae Cyngor Sir Fynwy yn ymroddedig i weithio tuag at sir sy'n gweithio i bawb a rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd a llesiant gydol oes i blant. Yn unol â hyn, mae'r Gwasanaethau Plant yn gweithio i sicrhau bod eu holl waith, boed hynny'n waith unigol gyda phlant a phobl ifanc, i adolygiadau o'r gwasanaethau mae'n eu darparu a datblygu gwasanaethau newydd, yn cael ei lywio'n briodol gan farn plant a phobl ifanc.

Lluniwyd y strategaeth hon i sicrhau bod gan bawb sy'n gweithio yn y Gwasanaethau Plant ddealltwriaeth gyffredin o gyfranogiad plant a phobl ifanc, eu bod yn hyderus yn eu dull o ymdrin â hynny, a bod ein gwaith yn seiliedig ar hawliau, yn gynhwysol, yn dangos parch ac yn ddiogel.

Mae'r strategaeth hon yn cymryd i ystyriaeth waith arall ar draws y gwasanaeth, gan gynnwys Strategaeth Rhianta Corfforaethol Sir Fynwy 2018-2021, y Fframwaith Asesu Risg a Chyfathrebu ar y Cyd. Mae pob un o'r rhain yn rhoi'r plentyn yn y canol ac yn disgwyl i ymarferwyr weithio ac y cyd, gan ddangos parch at blant a phobl ifanc, ar sail egwyddor 'beth sy'n bwysig' iddyn nhw.

Bydd pob tîm ar draws y Gwasanaethau Plant yn wynebu pwysau unigryw a blaenoriaethau gwahanol, felly bydd manylion penodol sut mae'r strategaeth hon yn cael ei chymhwyso ar draws y gwasanaeth yn amrywio yn ôl natur y gwaith sy'n cael ei wneud. O ganlyniad, bydd angen i bob tîm ystyried sut mae rhoi'r strategaeth ar waith a llunio'u cynllun gweithredu eu hunain ar gyfer ymarfer o fewn y tîm. Ceir templedi isod i gefnogi hynny.

Beth rydyn ni'n gobeithio ei gyflawni

Bwriadau Gwasanaethau Plant Sir Fynwy yw:

- Gwneud y plentyn/person ifanc yn ganolog i bopeth a wnawn
- Dysgu gan blant a phobl ifanc ynghylch beth sy'n bwysig iddyn nhw, eu meddyliau, eu gobeithion, eu hanghenion a'u barn ynghylch eu bywydau, y gwasanaethau maen nhw'n eu derbyn a'r rhwystrau maen nhw'n eu hwynebu
- Defnyddio'r wybodaeth hon i wneud y penderfyniadau gorau posibl ar gyfer plant a phobl ifanc a chyda nhw, ac ymdrechu i wella'n barhaus yr hyn rydyn ni'n ei wneud a sut rydyn ni'n gweithio.

Mae'r strategaeth hon yn nodi sut bydd y Gwasanaethau Plant yn gwreiddio'r ymrwymiad i Hawliau Plant a chyfranogiad ac yn gweithio i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn rhan o benderfyniadau sy'n effeithio arnynt ac yn cael cyfle i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed. Mae hyn yn cynnwys dylunio, datblygu a chomisiynu gwasanaethau, a chynllunio, cyflwyno ac adolygu'r gwasanaethau mae plant a phobl ifanc yn eu derbyn.

Beth yw Cyfranogiad?

Mae cyfranogiad yn golygu cynnwys plant a phobl ifanc wrth wneud penderfyniadau, cynllunio ac adolygu unrhyw weithredu a allai effeithio arnyh nhw. Nid digwyddiad yw cyfranogiad; mae'n broses o wrando ar blant a phobl ifanc a'u hannog i gyfrannu eu barn a'u syniadau ynghylch beth ddylai ddigwydd. Gallai hynny fod mewn perthynas â mater penodol, gwasanaeth maen nhw'n ei dderbyn neu ddatblygu gwasanaethau newydd. Yna mae'n golygu gweithredu mewn modd ystyrlon ar sail eu cyfraniadau. Nid yw cyfranogiad yn golygu y bydd plant a phobl ifanc o reidrwydd yn derbyn popeth maen nhw'n gofyn amdano, ond mae yn golygu y dylen nhw fedru gweld sut mae eu barn wedi cael ei chymryd i ystyriaeth. Bydd canlyniad unrhyw broses o wneud penderfyniadau bob amser yn gorfod cydbwysu dymuniadau a theimladau pawb dan sylw; risgiau, anghenion, beth sy'n bosibl, ac yn y pen draw lles pennaf y plentyn neu'r person ifanc.

Mae'r Gwasanaethau Plant yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc trwy'r amser. Nid penderfyniadau am blant a phobl ifanc unigol yn unig, ond hefyd am y gwasanaethau rydyn ni'n eu datblygu a'r polisiau a'r gweithdrefnau rydyn ni'n eu

Illunio sy'n llywio ein gwaith. Er mwyn seilio ein gwaith yn wirioneddol ar hawliau, mae angen i ni gael hyd i ffyrdd o fynd ati'n weithredol i geisio barn a chyfranogiad grwpiau ehangach o blant a phobl ifanc a defnyddio'r hyn rydyn ni'n ei ddarganfod i ddylanwadu ar ein gwaith a'n dull o'i gyflawni, fel ein bod yn diwallu eu hanghenion yn well.

Dylai Cyngor Sir Fynwy, y Gwasanaethau Plant, eich tîm a chithau fel ymarferydd fedru cofnodi, cynllunio a darparu tystiolaeth o sut rydych chi'n cynnwys plant a phobl ifanc mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw, yn y gwasanaethau maen nhw'n eu derbyn, ac wrth werthuso gwasanaethau, ac yna sut rydych chi'n bwriadu cyflawni'r canlyniadau a nodwyd.

Sbardunau Cyfranogiad: Deddfwriaeth a Pholisi

Mae Llywodraeth Cymru yn ymroddedig i sicrhau bod CCUHP yn cael ei wireddu yng Nghymru, ac mae hynny'n ganolog i ddeddfwriaeth Llywodraeth Cymru, gan gynnwys:

- Deddf Plant 2004¹ sy'n datgan, pan fydd awdurdod lleol yn gwneud penderfyniad ynghylch plentyn, y dylai, i'r graddau y mae hynny'n rhesymol ymarferol ac yn unol â lles y plentyn: ganfod a rhoi ystyriaeth ddyledus i ddymuniadau a theimladau'r plentyn mewn unrhyw benderfyniadau a wneir.
- Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011² sy'n gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi 'sylw dyledus' i hawliau plant wrth wneud penderfyniadau.
- Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010³ sy'n gosod dyletswydd statudol ar Awdurdodau Lleol i hybu a hwyluso cyfranogiad gan blant a phobl ifanc ym mhenderfyniadau'r Awdurdod Lleol sy'n effeithio arnynt.
- Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014⁴ yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i weithio mewn partneriaeth â dymuniadau a theimladau'r i'r graddau y mae hynny'n rhesymol, yn ymarferol bosibl ac yn unol â lles y person, a rhaid ystyried cyfranogiad mor llawn â phosibl i blant,

¹ <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2004/31/contents>

² <https://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/2/contents>

³ <https://www.legislation.gov.uk/mwa/2010/1/contents>

⁴ <https://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/contents>

pobl ifanc a theuluoedd mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw, a bod ganddyn nhw'r wybodaeth a'r gefnogaeth i wneud hynny.

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015⁵ sy'n amlinellu ffyrdd allweddol o weithio er mwyn cyflawni'r 'nodau llesiant'. Mae cyfranogiad plant a phobl ifanc yn ganolog i'r ddeddfwriaeth hon, gan gynnwys ymwneud â chanfod problemau cyn iddynt godi, clywed barn y rhai mwyaf agored i niwed, ac ymwneud â datblygu a gwella gwasanaethau.
- Côd Ymarfer Gofal Cymdeithasol, sy'n mynnu bod gweithwyr yn parchu barn a dymuniadau ac yn hybu hawliau a lles unigolion a gofalwyr, gan hybu llesiant, llais a rheolaeth unigolion a gofalwyr.

Manteision Cyfranogiad

Mae cyfranogiad yn fwy na dim ond hawl gyfreithiol i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd; mae hefyd yn ffordd i wella sut rydyn ni'n gweithio a'r gwasanaethau mae pobl yn eu derbyn. Mae'n darparu gwybodaeth newydd i ni a phersbectif ehangach ar y gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu, gan ein galluogi i addasu a newid beth rydyn ni'n ei wneud a sut rydyn ni'n ei wneud, er mwyn ymateb yn well i anghenion pobl. Mae cael eu cynnwys yn rhoi perchnogaeth ar y gwasanaethau maen nhw'n eu defnyddio i blant, pobl ifanc a theuluoedd, ac mae hynny'n golygu bod y gwaith rydyn ni'n ei wneud gyda'n gilydd yn fwy tebygol o fod yn llwyddiannus. Mae gweithio ar y cyd a chynnwys plant, pobl ifanc a theuluoedd yn golygu bod y bobl rydyn ni'n gweithio gyda nhw yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu parchu a bod ganddyn nhw fwy o reolaeth ar beth sy'n digwydd.

	Manteision i blant a phobl ifanc	Manteision i Wasanaethau Plant a'ch ymarfer
Penderfyniadau gwell	Mae plant a phobl ifanc yn teimlo eu bod yn cael eu cymryd o ddifri, eu gwerthfawrogi, a'u bod yn cael gwrandawriad a pharch. Maen nhw'n cael cyfle i rannu eu barn ac yn wir yn dylanwadu ar yr hyn sy'n digwydd yn eu bywydau	Mae'n gallu gwella ein dealltwriaeth o fywydau'r plant a'r bobl ifanc rydyn ni'n gweithio gyda nhw


⁵ <https://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/2/contents/enacted>

Gwasanaethau gwell	Mae plant a phobl ifanc yn gallu galw'r Awdurdod Lleol i gyfrif wrth iddyn nhw wneud penderfyniadau a helpu i wella gwasanaethau	Mae'n gallu ein helpu i wella gwasanaethau presennol gan gynnwys eich ymarfer, trwy ddangos i chi'r pethau sy'n gweithio a'r pethau sydd ddim yn gweithio cystal i blant a phobl ifanc
Defnydd gwell o adnoddau	Mae gan blant a phobl ifanc fuddsoddiad yn y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud	Mae'n gallu ein helpu i ddatblygu gwasanaethau newydd sy'n fwy perthnasol ac yn gallu diwallu anghenion newidiol plant a phobl ifanc
Ymarfer gwell	Gall plant a phobl ifanc adeiladu ar sgiliau a gwybodaeth sydd ganddynt eisoes, datblygu sgiliau newydd a gweld y pethau cadarnhaol maen nhw'n eu cyflawni yn cael eu cydnabod a'u rhannu	Lle mae plant a phobl ifanc yn teimlo eu bod yn cael eu cymryd o ddifri, eu gwerthfawrogi, ac yn cael gwrandawriad a pharch byddwch chi'n fwy abl i feithrin cydberthynas ag ymddiriedaeth a gwella'ch ffordd o weithio
Cymunedau cryfach	Mae'n gallu helpu i rymuso plant a phobl ifanc a chynyddu eu hunan-barch a'u hunanhyder. Caiff plant a phobl ifanc eu gweld a'u gwerthfawrogi fel dinasyddion cyfartal yn eu cymunedau ehangach	Lle mae plant a phobl ifanc yn teimlo eu bod yn cael eu cymryd o ddifri, eu gwerthfawrogi, ac yn cael gwrandawriad a pharch, maen nhw'n fwy tebygol o deimlo eu bod yn perthyn, a bydd hynny'n hybu cymunedau cryfach, mwy cysylltiedig

Mathau o Gyfranogiad

Nid yw'r ffaith bod cyfranogiad yn egwyddor gyffredin ar draws y Gwasanaethau Plant yn golygu y dylai pob ymgysylltiad â phlentyn, person ifanc neu deulu ddigwydd yn yr un modd. Mae model cyfranogiad Treseder (1997)⁶ yn cydnabod y ffaith y bydd angen dulliau gweithredu gwahanol ar gyfer gwahanol sefyllfaoedd, a cheir rhagor o fanylion am y model hwn yn Atodiad 1.

⁶ Allan o: Empowering children & young people training manual: promoting involvement in decision making (Achub y Plant). Phil Treseder, 1997



Nid yw'r gwahanol raddau o gyfranogiad yn well nac yn 'fwy cyfranogol' na'i gilydd. Mae angen i'r hyn a wneuch fod yn briodol ar gyfer y sefyllfa, gan gynnwys anghenion a dymuniadau'r plentyn neu'r person ifanc unigol. Fodd bynnag, mae pob math ar gyfranogiad yn galw am rannu pŵer rhwng y rhai sydd â mwy ohono, beth bynnag yw'r sefyllfa (yn y Gwasanaethau Plant mae hynny fel arfer yn golygu gweithwyr cymdeithasol, llysoedd, gweithwyr proffesiynol eraill ac oedolion) a'r rhai sydd â llai ohono (fel arfer plant, pobl ifanc, teuluoedd).

Wrth feddwl am sut rydych chi'n mynd i gynnwys plant a phobl ifanc yn y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud, bydd angen i chi feddwl pa lefel o gyfranogiad yw'r fwyaf priodol. Mae Adolygiad Plentyn sy'n Derbyn Gofal, er enghraifft, o reidrwydd yn broses sy'n cael ei harwain gan oedolion, ond dylid ymgynghori â phlant a'u hysbysu. Gallai darn o waith uniongyrchol gyda phlentyn neu berson ifanc gael ei sbarduno gan oedolyn, gyda phenderfyniadau a rennir.

Rhai Pethau i Feddwl Amdanynt?

1. Pwy sydd â'r pŵer neu'r dylanwad mwyaf o ran y penderfyniad sy'n cael ei wneud? Sut byddwch chi'n cyfleu barn a dymuniadau'r plentyn/person ifanc

mewn ffordd sy'n golygu y byddan nhw'n cael eu gwerthfawrogi, ac yn cael parch a gwrandawriad?

2. Oes gan y plentyn/person ifanc yr wybodaeth angenrheidiol i wneud penderfyniad gwybodus ynghylch a ydyn nhw am fod yn rhan o'r penderfyniad, ydyn nhw'n deall beth sy'n cael ei ofyn ganddyn nhw?
3. Ydy'r plentyn/person ifanc yn deall beth sy'n digwydd, ydyn nhw'n gwybod pa benderfyniadau sy'n cael eu gwneud, sut bydd eu hymwneud yn gwneud gwahaniaeth a beth fydd yn digwydd nesa? Ydych chi wedi nodi'n glir i ba raddau gall eu barn effeithio ar y canlyniad?
4. Ydych chi'n cynnig gwahanol opsiynau ac ydy'r rhain yn realistig? Ydy'r dewisiadau sy'n cael eu cynnig yn ystyrlon ac yn onest?
5. Ydy'r plentyn neu'r person ifanc yn cael cefnogaeth rhywun annibynnol maen nhw'n ymddiried ynddyn nhw, oes angen eiriolydd arnyd nhw? Oes angen unrhyw gefnogaeth arall?
6. Oes yna broses apeliadau neu gwynion os bydd unrhyw beth yn mynd o'i le? Ydy'r broses honno'n hygyrch ac ydy'r plentyn/person ifanc yn deall sut mae cael mynediad iddi?
7. Sut rydych chi'n gwybod? Sut rydych chi'n gwirio bod eu hymwneud yn ystyrlon, ac nid yn docynistaidd?

Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol

Os yw cyfranogiad i fod yn ystyrion, mae angen bod gan yr oedolion dan sylw ddiddordeb a chred [dilys](#) yng ngalluoedd a sgiliau plant a phobl ifanc. Ni all cyfranogiad fod yn fater o roi tic mewn blwch. Wrth gynnwys plant a phobl ifanc mae'n rhaid i ni ddweud y gwir am ystyr eu hymwneud â'r sefyllfa a pha wahaniaeth bydd hynny'n gwneud. Datblygwyd y Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol⁷ [gyda](#) phlant a phobl ifanc ac maen nhw'n cyflwyno saith blaenoriaeth ar gyfer gwaith cyfranogol effeithiol:

1. Gwybodaeth – dylai pobl ifanc dderbyn gwybodaeth hygyrch am beth sy'n mynd i ddigwydd, sut bydd eu hymwneud â'r sefyllfa yn gwneud gwahaniaeth, a phwy fydd yn gwrando ac yn rhoi gwybod iddyn nhw, fel bod modd iddyn nhw wneud penderfyniad gwybodus ynghylch a ydyn nhw am gymryd rhan neu beidio.
2. Dewis – dylai pobl ifanc gael digon o gefnogaeth ac amser i benderfynu ydyn nhw eisiau cymryd rhan.
3. Dim gwahaniaethu – dylai pobl ifanc gael eu trin yn deg, gan barchu anghenion a diddordebau gwahanol pobl ifanc. Hefyd dylai fod ystod o gyfleoedd a chefnogaeth i ymateb i'w hanghenion.
4. Parch – Mae gan bobl ifanc hawl i leisio barn a dylai eu safbwyntiau gael eu parchu a'u gwerthfawrogi. Dylai pobl ifanc gael gwrandawriad, a dylid cymryd eu barn o ddifri.
5. Elwa – dylai pobl ifanc elwa o gymryd rhan, a dylai fod yn ddiogel, yn ddifyr ac yn brofiad i'w fwynhau, yn rhywbeth cadarnhaol sy'n meithrin sgiliau a hyder.
6. Adborth – dylai pobl ifanc gael gwybod sut mae eu barn wedi cael ei defnyddio cyn gynted â phosibl, sut maen nhw wedi gwneud gwahaniaeth, a beth fydd yn digwydd nesa.
7. Gweithio'n well – dylen ni sicrhau bod hawliau plant yn ganolog i bopeth a wnawn, a dylen ni weithio gyda phlant a phobl ifanc i ddysgu sut gallwn ni wneud pethau'n well a sicrhau bod eu barn yn gwneud gwahaniaeth i'n dull o wneud cynlluniau a phenderfyniadau.

Dulliau o Ymgysylltu

⁷ [participationstandards_poster_9](#)

Mae ystod eang o adnoddau, offer a dulliau ar gael ar-lein, a rhestrir rhai dolenni defnyddiol isod. Byddwch eisoes yn defnyddio llawer o adnoddau mewn unrhyw waith uniongyrchol rydych chi'n ei wneud ond CHI yw'r adnodd gorau oll. Mae sut rydych chi'n siarad â phlant a phobl ifanc a'u teuluoedd, yn meithrin cydberthynas o ymddiriedaeth gyda nhw ac yn gwneud iddyn nhw deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu yn y broses lawn mor bwysig, os nad yn fwy felly, nag unrhyw offer neu fodolau y byddwch chi'n eu defnyddio.

Gall cyfranogiad ddigwydd ar sail unigol un-i-un, mewn grwpiau, ar lafar, yn ysgrifenedig, yn rhithwir neu'n ddigidol. Mae manteision i bob un o'r dulliau hynny, a bydd gwahanol ddulliau'n apelio at wahanol blant, pobl ifanc a theuluoedd. Gallech defnyddio un dull neu amrywiaeth o ddulliau gwahanol, yn ôl yr hyn rydych chi'n ceisio'i gyflawni.

Un-i-un – Mae llawer o'n gwasanaethau yn gweithio ar lefel un-i-un gyda phlant a phobl ifanc. Gall hynny gynnwys sgysiau i gynnwys plant yn uniongyrchol mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw'n bersonol, ac i helpu i lywio a gwerthuso ymyriadau a gwasanaethau yn gyffredinol.

Digwyddiadau ymgynghori – mae'r rhain yn addas iawn i gynyddu ymwybyddiaeth/gasglu adborth ar fater, dogfen neu ddatblygiad penodol. Gall fod yn gyfle i blant a phobl ifanc rannu eu barn â phlant a phobl ifanc eraill, darparwyr gwasanaeth, uwch reolwyr a chynghorwyr, a datblygu cynlluniau gweithredu.

Grwpiau ffurfiol – Mae grwpiau cyfranogiad ffurfiol yn caniatáu deialog parhaus gyda'r un unigolion dros gyfnod o amser, felly maen nhw'n addas iawn ar gyfer gwaith prosiect tymor canolig/hir.

Grwpiau ffocws – Wrth werthuso neu greu prosiect neu wasanaeth, mae modd dod â grŵp bach o blant a phobl ifanc ynghyd i glywed eu barn. Mae hyn hefyd yn creu cyfle i gynhyrchu ar y cyd, lle rhoddir mwy o bŵer a chyfrifoldeb i blant a phobl ifanc.

Ffurflenni ymgynghori ac adborth – Defnyddir ffurflenni ymgynghori ac adborth yn helaeth ar draws y Gwasanaethau Plant. Mae angen gofalu bod y ffurflenni sy'n cael eu llunio yn rhai hawdd eu llenwi, ac y byddan nhw'n darparu gwybodaeth werthfawr a ddefnyddir i lywio a gwella gwasanaethau. Dylai unigolion fod yn defnyddio ffurflenni safonol ar draws timau, fel bod modd dadansoddi'n fwy effeithiol.

Cyfyngau cymdeithasol/Apiâu – Mae cyfyngau cymdeithasol yn rhoi cyfle i gynnal deialog parhaus gyda phobl ifanc a hybu digwyddiadau cyfranogiad a grwpiau. Mae

angen ystyried y defnydd o gyfryngau cymdeithasol yn ofalus, a dilyn y polisiau a'r canllawiau perthnasol.

Cyfranogiad yn y Gwasanaethau Plant

Ymwneud â phenderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw

Bydd gan bob tîm yn y Gwasanaethau Plant rai gofynion statudol ar gyfer cynnwys plant mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Bydd hynny'n golygu o leiaf:

- Siarad â phob plentyn a pherson ifanc a gwrando arnyn nhw am eu profiad o'r byd a beth sy'n bwysig iddyn nhw
- Cynnwys pob plentyn a pherson ifanc yn weithredol, mewn modd parhaus, mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw mewn asesiadau ac wrth i gynlluniau teulu, cynlluniau gofal, cynlluniau amddiffyn plant, cynlluniau plant sy'n derbyn gofal a chynlluniau llwybr gael eu datblygu
- Bod llais pob plentyn/person ifanc yn gwbl amlwg mewn cynlluniau teulu, cynlluniau gofal a chymorth, cynlluniau amddiffyn plant, cynlluniau plant sy'n derbyn gofal a chynlluniau llwybr, ac wrth adolygu'r cynlluniau hynny
- Bod plant a phobl ifanc yn cael eu hannog yn weithredol i ddefnyddio'r gwasanaeth eiriolaeth i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed yn well
- Bod plant a phobl ifanc yn cael eu hannog yn weithredol i fynychu a chyfrannu at eu Hadolygiadau Plant sy'n Derbyn Gofal eu hunain a'u Cynadleddau Achos Amddiffyn Plant lle bo hynny'n briodol, a bod eu lleisiau'n cael eu hybu, p'un a ydyn nhw'n gallu bod yn bresennol neu beidio.

Adborth

Dylai fod gan bob tîm fecanwaith ar gyfer casglu adborth gan y plant a'r bobl ifanc sy'n defnyddio'i wasanaeth. Gallai hynny fod trwy ddatblygu grŵp defnyddwyr gwasanaeth ffurfiol, grwpiau ffocws a/neu ffurflenni adborth ysgrifenedig neu ddigidol fel Survey Monkey. Dylai'r adborth gael ei ddefnyddio i lywio a gwella ymarfer a thywys datblygiad y gwasanaeth, gan ddileu rhwystrau i blant a phobl ifanc sy'n cael mynediad i'r gwasanaeth.

Datblygu gwasanaeth

Mae plant a phobl ifanc yn arbenigwyr yn eu bywydau eu hunain, a gallan nhw gynnig yr arbenigedd honno wrth ddatblygu gwell gwasanaethau cyhoeddus.

Dylid cymryd barn plant a phobl ifanc i ystyriaeth pan fydd prosiectau neu wasanaethau newydd yn cael eu datblygu, ac yn ddigon cynnar i'w barn gael effaith ar y penderfyniadau a wneir. Gallai hynny olygu rhannu syniadau ynghylch natur y gwasanaeth a'r canlyniadau rydych chi'n gobeithio eu cyflawni, ac ymgorffori eu barn wrth i chi ddatblygu'r gwasanaeth.

Comisiynu a chaffael

Dylid ystyried cynnwys plant a phobl ifanc wrth gomisiynu a chaffael y gwasanaethau y byddan nhw'n eu defnyddio. Gallai hynny gynnwys eu gwneud yn rhan o ddatblygu'r fanyleb dendro (fel uchod) neu ymgynghori â nhw ynghylch manyleb rydych chi wedi'i datblygu a chynnwys panel pobl ifanc fel rhan o'r panel gwneud penderfyniadau.

Recriwtio

Dylid cynnwys plant a phobl ifanc lle bynnag y bo modd a lle bo hynny'n ymarferol bosibl wrth recriwtio staff. Gall person ifanc unigol gael eu dadrymuso fel aelod o banel ar y cyd plant ac oedolion, felly ystyriwch drefnu panel plant/pobl ifanc ar wahân os bydd modd.

Datblygu Polisiâu

Dylid ystyried ymgynghori â phlant a phobl ifanc pan fydd polisiâu pwysig yn cael eu hystyried a fydd yn effeithio ar y gwasanaethau maen nhw'n eu defnyddio neu sut gallan nhw gael mynediad iddyn nhw. Gallai hyn alw am brosesau ymgynghori mwy ffurfiol fel grwpiau ffocws.

Dadansoddi Data

Gall gwybodaeth rydych chi'n ei chasglu gan blant a phobl ifanc am eu profiadau bywyd, beth sy'n bwysig iddyn nhw a'u profiadau o'r gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu roi gwybodaeth bwysig i chi, eich tîm a'r gwasanaethau plant, gwybodaeth y gallwn ni ei defnyddio i wella beth rydyn ni'n ei wneud a sut rydyn ni'n ei wneud, fel ei fod yn fwy perthnasol a hygyrch i blant a phobl ifanc. Mae modd ei ddefnyddio i helpu i ganfod bylchau mewn hyfforddiant, gwasanaethau ac adnoddau, ac i ddarparu tystiolaeth o arfer da y mae modd ei hybu a'i rannu.

Pethau i feddwl amdanynt!

- Ydych chi'n bod yn wirioneddol gynhwysol? Meddyliwch pa bobl ifanc rydych chi'n ymwneud â nhw, a sut gallwch chi fod mor gynhwysol â phosib.
- Ydych chi'n glir ynghylch pa ganlyniadau rydych chi am eu cyflawni ac ydych chi wedi cyfleu'r rhain i'r bobl ifanc dan sylw?
- Ydy'r bobl ifanc rydych chi'n eu cynnwys yn mynd i fedru gwneud gwahaniaeth?

Dylech chi ofyn iddyn nhw gyfrannu mewn meysydd lle maen nhw'n gallu gwneud gwahaniaeth yn unig. Os nad ydych chi'n bwriadu, neu'n medru, gwrando ar beth sydd ganddyn nhw i'w ddweud, peidiwch â gofyn iddyn nhw gyfrannu.

- Oes gennych chi'r holl adnoddau angenrheidiol? Gofalwch fod gennych chi'r adnoddau cywir i gyflawni eich bwriadau'n iawn ac mewn ffordd sy'n parchu'r bobl ifanc rydych chi'n eu cynnwys. Ystyriwch a fydd hyn yn galw am:
 - Amser – gan gynnwys amser paratoi ac ar gyfer hyfforddi'r bobl ifanc y gallech chi fod yn gweithio gyda nhw
 - Costau – oes yna gostau trafndiaeth, lleoliad, lluniaeth neu gostau eraill?
 - Hyfforddiant – gallai fod angen codi lefel sgiliau'r bobl ifanc er mwyn medru eu grymuso'n iawn
 - Adnoddau – beth arall neu pwy arall gallai fod arnoch chi eu hangen?
- Oes gan y bobl ifanc rydych chi'n eu cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol?
- Ydych chi'n gofyn cwestiynau maen nhw'n gallu eu hateb iddyn nhw? Ddylech chi ddim gofyn barn pobl ifanc ond ar bethau maen nhw'n gallu gwneud sylwadau amdanynt. Er enghraifft, os ydych chi'n recriwtio Rheolwr Tîm, bydd person ifanc yn gwybod am bwysigrwydd trin plant â pharch neu feithrin ymddiriedaeth, ond fyddan nhw ddim o reidrwydd yn gwybod am reoli perfformiad, felly meddyliwch yn ofalus am beth rydych chi'n disgwyl a sut rydych chi'n cefnogi ymwneud ystyrlon.
- Ydych chi wedi rhoi adborth iddyn nhw? Dylech chi bob amser ddweud wrth bobl ifanc rydych chi wedi gofyn eu barn sut mae'r farn honno wedi gwneud gwahaniaeth, ac os nad yw hi, pam mae hynny'n wir.

Rhai Dolenni Defnyddiol

- [Cyfeirlyfr o offer gwaith uniongyrchol i'w ddefnyddio gyda phlant a phobl ifanc - Childrens \(ccinform.co.uk\)](#)
- [Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant i Ofal Cymdeithasol yng Nghymru – Comisiynydd Plant Cymru \(complantcymru.org.uk\)](#)
- [Y Ffordd Gywir: Dull Gweithredu Seiliedig ar Hawliau Plant yng Nghymru – Comisiynydd Plant Cymru \(complantcymru.org.uk\)](#)
- [http://www.childtochild.org.uk/wp-content/uploads/2015/04/Toolkit for monitoring and evaluating childrens participation book 5 en.pdf](#)

Templed ar gyfer Gwerthusiad Tîm a Chynllun Gweithredu

Nid dyma'r unig ffordd o wneud hyn, ond mae'n cael ei ddarparu'n ganllaw i helpu eich tîm i asesu ble maen nhw o ran cyfranogiad a llais y plentyn, a chreu cynllun gweithredu eu tîm.

Yn unigol neu fel tîm, cwblhewch y gwerthusiad tîm isod. Bydd rhai meysydd yn fwy neu'n llai perthnasol (os o gwbl) i wahanol dimau. Defnyddiwch y camau gweithredu a ddewiswch i gwblhau'r cynllun gweithredu.

Cynnwys plant a phobl ifanc mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw – beth rydyn ni'n mynd i'w wneud			
Wrth feddwl am y gwaith rydyn ni'n ei wneud yn unigol ac fel tîm, pa benderfyniadau rydyn ni'n eu gwneud sy'n effeithio ar blant yn unigol ac ar y cyd?	Sut rydyn ni'n gwrando ar blant a phobl ifanc ar hyn o bryd?	Ble mae'r bylchau, a ble gallen ni fod yn gwneud yn well? Ydyn ni'n dysgu?	Camau Gweithredu

Adborth – casglu adborth ar ein gwasanaeth gan blant a phobl ifanc – beth rydyn ni'n mynd i'w wneud			
Pa fecanweithiau sydd gennym ni ar gyfer casglu adborth gan blant a phobl ifanc?	Sut rydyn ni'n defnyddio'r wybodaeth yma i wella ein hymarfer / gwasanaeth?	Ble mae'r bylchau, a ble gallen ni fod yn gwneud yn well? Ydyn ni'n dysgu?	Camau Gweithredu

Datblygu Gwasanaeth – cymryd barn plant a phobl ifanc i ystyriaeth wrth ddatblygu gwasanaeth – beth rydyn ni'n mynd i'w wneud

Pa wasanaethau newydd, gwasanaethau presennol sy'n cael eu hadolygu neu ffyrdd newydd o weithio rydyn ni'n eu datblygu y gallai plant a phobl ifanc gyfrannu syniadau ac arbenigedd ar eu cyfer?	Sut byddwn ni'n gwneud yn siŵr bod plant a phobl ifanc yn cael yr wybodaeth gywir, a sut byddwn ni'n casglu ac yn cynnwys eu harbenigedd?	Ble mae'r bylchau, a ble gallen ni fod yn gwneud yn well? Ydyn ni'n dysgu?	Camau Gweithredu

Comisiynu a Chaffael – cynnwys plant a phobl ifanc wrth gomisiynu a chaffael – beth rydyn ni'n mynd i'w wneud

Pa wasanaethau rydyn ni'n eu comisiynu/caffael i blant a phobl ifanc?	Sut byddwn ni'n casglu ac yn cynnwys arbenigedd plant a phobl ifanc?	Ble mae'r bylchau, a ble gallen ni fod yn gwneud yn well? Ydyn ni'n dysgu?	Camau Gweithredu

Recriwtio – Cynnwys plant a phobl ifanc wrth recriwtio – beth rydyn ni'n mynd i'w wneud			
I ba rolau swyddi rydyn ni'n recriwtio lle byddai arbenigedd plant a phobl ifanc o gymorth i'r broses recriwtio?	Sut byddwn ni'n canfod, yn cefnogi, yn hyfforddi ac yn gwobrwyo'r plant a'r bobl ifanc dan sylw? Sut byddwn ni'n sicrhau bod y broses yn deg ac yn ddiogel i bawb?	Ble mae'r bylchau, a ble gallen ni fod yn gwneud yn well? Ydyn ni'n dysgu?	Camau Gweithredu

Polisi – Cynnwys plant a phobl ifanc yn natblygiad polisïau rydyn ni'n eu cyflwyno neu'n eu newid, a fydd yn effeithio'n sylweddol ar y gwasanaethau maen nhw'n eu defnyddio neu sut maen nhw'n cael mynediad iddyn nhw – beth rydyn ni'n mynd i'w wneud			
Pa bolisïau rydyn ni'n eu llunio neu'n eu diweddarau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar blant a phobl ifanc, y gwasanaethau maen nhw'n eu derbyn a/neu sut maen nhw'n cael mynediad iddyn nhw?	Sut byddwn ni'n gwneud yn siŵr bod plant a phobl ifanc yn cael yr wybodaeth gywir, a sut byddwn ni'n casglu ac yn cynnwys eu harbenigedd?	Ble mae'r bylchau, a ble gallen ni fod yn gwneud yn well? Ydyn ni'n dysgu?	Camau Gweithredu

Dadansoddi Data – Defnyddio'r wybodaeth rydyn ni'n ei chasglu am fywydau plant, beth sy'n bwysig iddyn nhw a'u profiadau o'n gwasanaethau i wella beth rydyn ni'n ei wneud – beth rydyn ni'n mynd i'w wneud


Pa ddata rydyn ni'n ei gasglu am blant a phobl ifanc, beth sy'n bwysig iddyn nhw a'u profiadau o'n gwasanaethau?	Sut rydyn ni'n defnyddio hyn i wella ein gwasanaethau?	Ble mae'r bylchau (gwasanaethau, hyfforddiant, gwybodaeth), a ble gallen ni fod yn gwneud yn well? Ydyn ni'n dysgu?	Camau Gweithredu

Cynllun Gweithredu'r Tîm

Gan gymryd y camau gweithredu o'r gwerthusiad tîm uchod

	Camau gweithredu	Sut byddwn ni'n gwybod ein bod wedi cyflawni hyn - sut bydd patrwm da yn edrych?	Cerrig milltir/cynnydd	Pwy sy'n gyfrifol	Amserlen
Cynnwys mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw					
Adborth					
Datblygu gwasanaeth					
Comisiynu a chaffael					
Recriwtio					
Datblygu Polisiâu					
Dadansoddi Data					

Model cyfranogiad Tresaeder



1) Aseinio ond hysbysu – Dyma ddisgrifiad o brosiect sy'n cael ei ddewis a'i arwain gan oedolion, lle mae'n amlwg bod modd i blant a phobl ifanc wirfoddoli a chwarae rhan, ond mai'r oedolion sy'n berchen ar gyfeiriad y prosiect o fewn y deiniamig ac yn ei lywodraethu. Mae'r plant a'r bobl ifanc yn deall mai'r oedolion biau'r prosiect hwn, ac maen nhw'n deall gofynion eu gwirfoddoli. Mae'n bwysig pwysleisio eu bod hefyd yn gwybod y bydd eu barn, eu meddyliau a'u hargraffiadau yn cael gwrandawriad a pharch.

2) Ymgynghori a hysbysu – Yn achos prosiect neu raglen a luniwyd gan oedolion ac sydd yn eu gofal, ymgynghori yw'r unig ffordd o gynnwys plant. Er mwyn ymateb i ymgynghori mae angen deall y cynigion ac mae disgwyl i'r farn a fynegir gael ei chymryd o ddifri. Mae ymgynghori yn wahanol i gyfranogiad; mae'n seiliedig ar ofyn, yn hytrach na chynnwys.

3) Penderfyniadau a rennir gyda phlant, wedi'u sbarduno gan oedolion – Er mai oedolion sy'n cynhyrchu'r syniadau cychwynnol, mae'r cyfnodau cynllunio a gweithredu dilynol yn cynnwys plant yn weithredol. Ar y lefel hon, caiff barn plant ei hystyried, ac maen nhw'n rhan o wneud penderfyniadau.

4) Penderfyniadau a rennir gydag oedolion, wedi'u sbarduno gan blant – Yn y fan hon, y plant sy'n cael y syniadau, sy'n sefydlu'r prosiect, ac sy'n penderfynu pryd i ofyn am gymorth a chynghor gan oedolion ac ymgynghori â nhw, ond heb gael cyfarwyddyd ganddynt.

5) Sbarduno a chyfeirio gan blant – Mae hyn yn cynrychioli newid o ran cydbwysedd pŵer; plant sy'n cael y syniad gwreiddiol ac yn penderfynu beth fydd yn digwydd, pryd, a sut. Mae oedolion ar gael, ond nid nhw sy'n rheoli.